| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **11 Gorffennaf 2022** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

Derbyniwyd y penderfyniadau canlynol oddi wrth  yr Ombwdsmon ers yr adroddiad diwethaf.

| **Cwyn** | **Penderfyniad** |
|---|---|
| **Cwyn Rhif  202005528**<br><br>Bod cynghorydd tref wedi torri'r Cod:<br><br>• wrth wneud honiadau ffug o wariant anawdurdodedig a chamddefnyddio arian gan y cyn Glerc<br><br>• drwy danseilio a dilorni'r Cyn Glerc mewn cyfarfodydd, cyhuddo aelodau eraill o ddweud celwydd a chydgynllwynio gyda'r Cyn Glerc mewn gweithgaredd anghyfreithlon, ac wedi targedu unrhyw aelod oedd yn cefnogi'r Cyn Glerc mewn ymgais i'w dychryn ac i ddwyn anfri ar y Cyn Glerc. | Dirwyn yr ymchwiliad i ben<br><br>Dechreuwyd ymchwiliad oherwydd bod y gŵyn yn bodloni dau gam y prawf 2 gam ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn y gŵyn.<br><br>Gan nad oedd yr Achwynydd wedi dychwelyd ei ddatganiad tyst, ac nad oedd y cynghorydd bellach yn aelod nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai er budd y cyhoedd i adnoddau gael eu defnyddio i barhau a chwblhau'r ymchwiliad. |
| **Cwyn Rhif 202004473**<br><br>Cwyn bod aelod wedi rhannu  ddeunydd ar ei gyfrif Facebook a oedd yn taflu amheuaeth ar fodolaeth COVID-19 ac am y brechlyn, a phan ymddangosodd ar sioe deledu i drafod ei farn am COVID-19 a'r brechlyn. | Canfu'r Ombwdsmon fod gan yr Aelod hawl i ryddid mynegiant ac i ddal a mynegi ei farn o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. |

| | |
|---|---|
| | Roedd tystiolaeth yn awgrymu nad oedd yr Aelod yn cynrychioli 'safbwynt y Cyngor'. Ni roddodd yr Aelod gyfarwyddiadau i aelodau'r cyhoedd yn groes i'r mesurau iechyd cyhoeddus a oedd ar waith ar y pryd. Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. |

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion y cafwyd penderfyniad arnynt hyd yn hyn eleni (2022/23):

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 2 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 1 |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | |
| Ymchwiliad wedi ei ddirwyn i ben | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau | |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru | |

**4. Achosion Agored**

4.1 Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **3**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **0**
- **Wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau** **0**

- **Wedi eu cyfeirio at  Banel Dyfarnu Cymru** **0**

**5. Argymhelliad**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth